- Mae Cyngor Sir Fynwy yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob adran o'r gymuned.
- Mae'r holl swyddi'n agored i'w rhannu os na nodir fel arall.
- Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Dim Ysmygu yn y Gweithle.

PROFFIL Y RÔL

TEITL Y RÔL: Rheolwr Gwasanaeth – Llesiant, Cymorth i Deuluoedd a Diogelu

RHIF ADNABOD Y SWYDD: SCS11

GRADD: BAND M SCP 53– SCP 57 £47,097 - £51,121

ORIAU: 37 Awr yr Wythnos

LLEOLIAD: Magwyr ond gall hyn newid yn y dyfodol os oes angen newid lleoliad y gwasanaeth. Ni thelir treuliau adleoli neu ymyrryd os yw hyn yn digwydd.

YN ATEBOL I: Pennaeth Gwasanaethau Plant

Pwrpas y Rôl hon:-

Dyma rôl arweiniol allweddol o fewn y Gwasanaethau Plant. Y pwrpas yw darparu arweinyddiaeth strategol, gweithredol a phroffesiynol. Bydd eich meysydd o gyfrifoldeb yn cynnwys, y Tîm o Gwmpas y Teulu, Tîm Cymorth i Deuluoedd, Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd a Diogelu Oedolion Sy'n Agored i Niwed. Byddwch yn atebol am ddatblygu gwybodaeth, cyngor a chymorth, ymyrraeth gynnar a dulliau llesiant.

Fel rhan o'r rôl, byddwch yn gyfrifol am fanteisio ar gyfleoedd gweithio mewn modd integredig gyda'r heddlu, gwasanaethau ieuchyd, addysg, partneriaid na sy' statudol, timau gwaith cymdeithasol eraill a gofal cynradd wrth ddarparu dulliau tuag at lesiant.

Chi fydd y gweithiwr Proffesiynol sy'n arwain ar faterion diogelu, yn gyfrifol am y safonau uchaf o ran sicrwydd ansawdd a fydd yn cynnwys diogelu plant ac oedolion yn Sir Fynwy. Byddwch yn gyfrifol am sicrhau dull strategol tuag at ddarparu'r ystod o wasanaethau cymorth i deuluoedd a gwasanaethau ar ymylon gofal sydd yn diwallu anghenion llesiant i blant a theuluoedd. Byddwch hefyd yn chwarae rôl ehangach wrth osod a gwireddu gweledigaeth a gwerthoedd Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn Sir Fynwy.

Disgwyliadau a Chanlyniadau'r Rôl hon:-

Byddwch yn arwain y broses o ddatblygu a chyflenwi dulliau llesiant a dulliau sy'n seiliedig ar lefydd, cyngor a chymorth gwybodaeth, gofal a chymorth ac sy'n rheoli a'n cefnogi ystod o wasanaethau sydd yn ffocysu ar ganlyniadau i Blant a Theuluoedd. Er mwyn cyflawni hyn, byddwch yn gyfrifol am reoli'r ystod o dimau ar draws y gwasanaethau plant ac angen gweithio mewn ffordd integredig gyda'r

heddlu, partneriaid iechyd ac addysg, timau oedolion a phlant eraill, gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yn uniongyrchol a rhai sydd wedi eu comisiynu a phartneriaid statudol a rhai eraill na sydd yn statudol

Byddwch yn sicrhau fod yna arweinyddiaeth broffesiynol glir ar gyfer yr holl drefniadau diogelu a sicrwydd ansawdd i oedolion a phlant yn Sir Fynwy. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod yna lywodraethiant a systemau effeithiol er mwyn sicrhau fod yna drefniadau diogelu effeithiol ar lefel leol a rhanbarthol. Mae'r rôl sicrwydd ansawdd yn cynnwys gwirio safonau proffesiynol, goruchwyliaeth, adolygu cymheiriaid, dysgu ac adolygu a chydymffurfio gyda'r fframweithiau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Byddwch yn arwain datblygiadau, yn strategol a'n weithredol, o fewn eich meysydd o gyfrifoldeb, yn egluro ac yn cydlynu rolau a chyfrifoldebau staff, gan sicrhau fod yna gyfathrebu a fforymau priodol mewn lle ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd. Byddwch yn cyfrannu at weithio mewn partneriaethau lleol a rhanbarthol, yn gwyntyllu cyfleoedd ar gyfer trefnu gwasanaethau o gwmpas y Rhwydweithiau Gofal yn y Gymuned a'r is-rwydweithiau.

Byddwch yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau fod cyfrifoldebau'r Cyngor o ran llesiant, cymorth i deuluoedd a diogelu, oll yn cael eu deall.

Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys:-

- Datblygu dulliau gwybodaeth, cyngor a chymorth, ymyrraeth gynnar a llesiant, tuag at wasanaethau plant a phobl ifanc drwy ddulliau sy'n seiliedig ar lefydd ac sydd yn cael eu cyflenwi mewn partneriaethau, gan gynnwys goruchwyllo asesiadau cymesur.
- Manteisio ar gyfleoedd ar gyfer gweithio mewn modd integredig gyda'r heddlu, gwasanaethau iechyd, addysg, tai, cyflogwyr, partneriaid na sy'n statudol a thimau gwaith cymdeithasol eraill a gofal cynradd er mwyn cyflenwi dulliau at lesiant
- Yn gyfrifol am y safonau uchaf o ddiogelu yn eich meysydd o gyfrifoldeb
- Yn gyfrifol am oruchwyllo ymchwiliadau diogelu Plant gan gynnwys cymryd camau brys pan fydd angen rheoli risg.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

- Arwain timau llesiant, cymorth i deuluoedd a diogelu a sicrwydd ansawdd er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y weledigaeth, gwerthoedd a systemau fel y gall plant ac oedolion fyw eu bywydau fel y dymunant.
- Sicrhau fod yna bwrpas clir a safon uchel o broffesiynoldeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ar draws yr holl dimau, dulliau a gwasanaethau, gan sicrhau fod gweithgareddau a chynlluniau oll yn cydweddu gyda'r weledigaeth ac egwyddorion gweithredol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn Sir Fynwy. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo gyda hyfforddi a mentora, cynllunio adnoddau, gosod safonau, rheoli perfformiad, datblygiad timau ac unigolion
- Sicrhau fod yna arweinyddiaeth strategol a gweithredol a phroffesiynol yn nodweddu'r arweinwyr tîm a'r arweinwyr practis, gan gytuno ar adolygu eu hamcanion perfformiad a gwerthuso eu perfformiad.

- Dadansoddi gwybodaeth wrthdrawiadol mewn modd arbenigol, gan wneud penderfyniadau yn seiliedig ar farn broffesiynol gan feddwl yn graff er mwyn sicrhau'r canlyniadau priodol.
- Datblygu a chynnal rhyngweithio effeithiol gydag arweinwyr gwasanaethau plant o fewn Sir Fynwy ac ar draws Gwent, gan chware rôl amlwg wrth sicrhau'r canlyniadau gorau i ddinasyddion o'r trefniadau a'r partneriaethau lleol a rhanbarthol
- Datblygu blaenoriaethau gwasanaeth clir, sydd yn gyson gyda'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer gofal cymdeithasol ac iechyd. Yn gyfrifol am gyfieithu blaenoriaethau i mewn i gynllun gwella gyda mesurau amlwg y mae modd eu monitro ar bob lefel. Yn atebol o ran cyflenwi'r cynllun gwella hwnnw.
- Byddwch yn gyfrifol am drefnu eich datblygiad proffesiynol eich hun, gan gymryd rhan yn eich gwerthusiad blynyddol a goruchwyliaeth gyson a datblygu eich cynllun ar gyfer eich datblygiad proffesiynol parhaus.
- Yn atebol am gynllunio a blaenoriaethu eich gwaith eich hun er mwyn rhoi'r cymorth effeithiol ar gyfer yr holl feysydd a chyflenwi'r amcanion allweddol ar draws yr holl wasanaeth.
- Chwarae rôl weithgar yn arweinyddiaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ac arweinyddiaeth ehangach y Cyngor, yn datblygu ffyrdd newydd o weithio yn unol gyda'r strategaethau a'r cynlluniau busnes.
- Yn gweithredu fel y swyddog ymchwilio 'annibynnol' o ran cwynion a gweithdrefnau personél ar gyfer gwasanaethau eraill, a hynny ar gais y Prif Swyddog.
- Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd i sefyllfaoedd lle y mae angen mynegi syniadau neu gysyniadau cymhleth a'u gweithredu ar draws y mudiad ac ymhlith partneriaid mewn iaith syml.
- Defnyddio sgiliau hynod effeithiol ar gyfer cyfathrebu gwybodaeth i ystod eang o bobl gan gynnwys: y cyhoedd, staff, arweinwyr gwasanaeth, Llysoedd, cydweithwyr addysg, iechyd a thai, Llywodraeth Cymru, gwleidyddion ayyb. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu yn effeithiol a gyda deallusrwydd emosiynol wrth herio sefyllfaoedd dadleuol gan gynnwys prosesau cyfreithiol.
- Byddwch yn rhoi cyflwyniadau mewn ystod o fforymau - proffesiynol, gweithredol a strategol - gan gyflwyno gwybodaeth sydd yn llywio agweddau gwahanol o'r gwasanaeth, dadansoddi data a'r effaith o newid / gwella gwasanaeth.
- Yn atebol am wariant hyd at uchafswm sydd wedi ei gytuno, a hynny yn unol gyda chyfarwyddyd cyllidol y mudiad.

Y Rhyddid i Weithredu

- Byddwch yn gyfrifol am lywio a gweithredu'r cyfeiriad strategol a'r rheolaeth weithredol gyffredinol, sydd yn ymwneud gyda llesiant, cymorth i deuluoedd a diogelu yng Nghyngor Sir Fynwy. Bydd angen i chi daro cydbwysedd rhwng yr angen am arweinyddiaeth strategol, a hynny yn erbyn gofynion ymatebol cyfrifoldebau gwasanaeth a budd-ddeiliad.
- Bydd disgwyl i chi weithio yn annibynnol, ac wedi eich llywio gan ddeddfwriaeth, strategaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a pholisïau trefniadol, ynghyd â chanllawiau lleol a chenedlaethol, gan roi cyngor ar sut y dylid dehongli a gweithredu'r rhain.



- Chi sydd yn gyfrifol am eich practis proffesiynol o fewn eich meysydd o gyfrifoldeb, a bydd angen cofrestru gyda'r Cyngor Gofal i Gymru ac amlygu eich cymwysterau proffesiynol a'ch datblygiad proffesiynol parhaus.

Arwain y Gweithlu

- Yn arwain ac yn ysgogi eich timau ac unigolion o fewn y gwasanaeth er mwyn cynnig pwrpas clir sydd yn cynnwys canlyniadau positif i bobl.
- Yn gyfrifol am sicrhau fod amcanion y Cyngor yn cael eu cyfathrebu'n glir ac yn cael eu llywio gan y gweithlu o fewn eich gwasanaethau.
- Datblygu ac ymrymuso unigolion o fewn y gweithlu er mwyn sicrhau diwylliant o welliant parhaus ac ardderchowgrwydd drwy safonau uchel ac arloesedd. Sicrhau fod y gweithlu rheng-flaen yn cael eu hymrymuso ac yn derbyn yr offer i wneud eu swyddi yn dda.
- Byddwch yn cefnogi'r Cyfarwyddwr Statudol, Pennaeth Gwasanaethau Plant ac arweinwyr y gweithlu i sicrhau fod y gweithlu (cofrestredig a gweithwyr cymorth) yn cael eu rheoli a'u datblygu a'u bod yn glynu wrth y polisiau/practis cyflogaeth.
- Datblygu a hyrwyddo gweithlu effeithiol, sydd wedi eu hysbrydoli a'n gymwys er mwyn cynnig lefel uchel o lesiant, gofal a chymorth. Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion o fewn unigolion ac ar lefel tîm.
- Cyfrannu at welliant ym mherfformiadau unigolion a'r mudiad drwy hyfforddiant a datblygiad systematig. Mae hyn yn cynnwys yr holl reolwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu gydol oes ynghyd ag annog dull tebyg ymhlith yr holl weithwyr eraill.
- Bod yn rheolwr llinell a'n sicrhau system effeithiol o reoli perfformiad, gan gynnwys gwerthuso a datblygiad personol, ar gyfer yr holl unigolion yr ydych yn eu rheoli.
- Bod yn gyfrifol am sicrhau strwythur rheoli llinell o fewn eich meysydd o gyfrifoldeb er mwyn sicrhau bod yna systemau effeithiol o oruchwyliaeth, gwerthuso, rheoli absenoldeb a datblygiad tîm ar draws yr holl dimau. Sicrhau fod yr holl bobl sydd yn cael eu rheoli yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau rheoli ar gyfer materion adnoddau dynol o fewn eu meysydd o gyfrifoldeb.
- Datblygu practis arloesol a safon uchel, sydd yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cael ei ddarparu o fewn diwylliant o welliant parhaus.
- Sicrhau fod systemau effeithiol yn cael eu defnyddio er mwyn dilysu fod staff cofrestredig yn cynnal eu deddfwriaeth broffesiynol a'u bod yn meddu ar y cymwysterau DBS priodol er mwyn ymgymryd â'u rôl.
- Arwain y broses o ddewis, gosod y staff ar gwrs anwytho, hyfforddi, datblygu, blaenoriaethu llwyth gwaith, goruchwyliaeth broffesiynol, gwerthuso ac adolygu perfformiad, ac adolygu staff yn unol gyda'r protocols cytunedig - oll yn effeithiol gan sicrhau fod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i safonau proffesiynol, canllawiau ac anghenion fel sydd wedi eu hamlinellu gan bob un mudiad.
- Awdurdodi pob ffurflen wyliau gan gynnwys cynllunio gwaith, gwyliau blynyddol, gwyliau am amser sydd wedi'i weithio, gwyliau hyblyg, absenoldeb rhiant a chynnal cyfweiliadau nôl i'r gwaith yn unol â'r gweithdrefnau sydd yn

berthnasol i'r aelodau staff o dan gyfrifoldeb y deiliad swydd. Gweithio gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth pan fydd y broses yn cyrraedd y camau ffurfiol.

- Cefnogi'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol er mwyn datblygu a gwella sgiliau'r ymarferwyr. Sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl anghenion datblygiad proffesiynol parhaus. Adnabod anghenion hyfforddi, gan gysylltu gyda rheolwyr / swyddogion hyfforddi perthnasol ar draws y mudiadau. Cyfrannu at y broses o ddylunio, comisiynu a gweithredu'r rhaglenni addysg a hyfforddiant er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth.
- Adrodd yn ffurfiol i'r DMT a'r Cabinet ar newidiadau arfaethedig i anghenion y gweithlu, yn unol gyda pholisïau CSF. Yn gyfrifol am yr holl agweddau o ymgynghori gyda'r gweithlu ar newidiadau arfaethedig i'r strwythur.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â fframweithiau cymhwysedd ar gyfer hyfforddi'r ystod o grwpiau galwedigaethol. Cynghori a delio gyda materion sydd yn ymwneud gyda chymhwysedd ac ymddygiad proffesiynol ymhlith staff yn y maes gwasanaeth, yn unol â pholisïau perthnasol y mudiad a'r cyfarwyddyd proffesiynol.
- Datblygu perthynas waith agos gyda'r undebau llafur a'r cyrff proffesiynol er mwyn hwyluso perthynas dda gyda'r gweithwyr.
- Hyrwyddo ymchwil a datblygiad, gan annog dysgu, a chynnwys y staff yn y broses o ddatblygu a gwerthuso syniadau a dulliau newydd ar gyfer gwella canlyniadau.

Cyfrifoldebau Penodol Sy'n Ymwneud â'r Gwasanaeth

Arwain datblygiad dulliau ymyrraeth gynnar, atal a llesiant o fewn eich meysydd o gyfrifoldeb, gan ddwyn partneriaethau effeithiol ynghyd fel rhan o'r dull sy'n seiliedig ar lefydd tuag at ddatblygu asedau sydd wedi eu lleoli yn y gymuned.

- Arwain y rôl o ddarparu dulliau gwybodaeth, cyngor a chymorth gan weithio ag ystod o adnoddau cymunedol er mwyn sicrhau dull cyson tuag at hyn oll.
- Yn gyfrifol am sicrhau fod asesiadau a chynlluniau gofal a thriniaeth integredig sydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu datblygu ar gyfer plant sydd yn meddu ar yr hawliau a'r anghenion cymwys.
- Yn gyfrifol am ddatblygu gwasanaethau sydd yn ffocysu ar ganlyniadau ar gyfer plant sydd eu hangen er mwyn i ni fedru diwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gydag arweinwyr comisiynu a darparwyr.
- Yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau fod polisïau gweithredol penodol yn cael eu gweithredu ar gyfer timau o fewn eich meysydd o wasanaeth. Yn gyfrifol am ddatblygu polisïau a gweithdrefnau Gofal Cymdeithasol ac lechyd ehangach fel sydd ei angen gan y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr Statudol.
- Cefnogi'r cyfarwyddwr statudol wrth arwain y Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan er mwyn sicrhau arweinyddiaeth gorfforaethol effeithiol o ran diogelu ar draws yr holl Gyngor.
- Yn gyfrifol am hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion a dyletswyddau llesiant, cymorth i deuluoedd a diogelu o fewn y Cyngor ac ymhlith budd-ddeiliaid, grwpiau sydd â diddordeb, partneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill.

- Sicrhau a datblygu systemau atgyfeirio clir a hygyrch a llwybr i mewn i'ch ardal gwasanaeth. Rhaid i drefniadau hygyrchedd i fod yn rhan glir o'r dull gwasanaeth cyngor a'r dulliau cymorth o fewn Sir Fynwy. Monitro effeithiolrwydd y trefniadau mynediad drwy'r fframwaith perfformiad a chanlyniadau perthnasol.
- Chware rôl arweiniol o ran trefniadau partneriaeth diogelu iechyd rhanbarthol plant ac oedolion ar gyfer ardal ehangach o Went a chyfrannu'n bositif at drefniadau partneriaeth leol.
- Cadeirio a mynychu cyfarfodydd priodol fel sydd angen ac sydd yn ymwneud ag elfennau strategol a gweithredol y gwasanaeth er mwyn sicrhau ansawdd, creu newid a llywio cynnydd / rhwystrau ayyb.
- Chwarae rôl arweiniol yn cefnogi ac yn cyfrannu at systemau gwybodaeth a phrosesau er mwyn cefnogi gweithio integredig gyda'r darparwyr addysg, iechyd, gofal ac eraill fel sydd yn briodol, pan fydd hyn er budd llesiant a diogelu pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth.
- Cynnal cofnod o'r risgiau gweithredol sydd yn wynebu'r gwasanaeth er mwyn adnabod, rheoli a lleihau risgiau, gan lunio adroddiadau rheoli risg fel sydd angen.
- Chware rôl arweiniol, a gweithio ag eraill fel sydd angen, er mwyn sicrhau fod systemau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn gweithredu'n effeithiol o fewn yr holl feysydd gwasanaeth, ar draws gwasanaethau'r Cyngor a'r rhai sydd wedi eu comisiynu.
- Delio gyda chwynion cychwynnol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol yn sensitif gan osgoi gorfod eu gyrru i'ch rheolwr llinell os yn bosib yn unol gyda cham 1 o'r broses gwyno, gan ymchwilio'r gwyn a gweithredu unrhyw newidiadau ar gyfer creu gwelliannau fel sydd wedi ei ddynodi gan ganfyddiadau mewn cydweithrediad gyda'r Pennaeth Proffesiynol perthnasol.
- Yn gyfrifol am sicrhau partneriaethau gwaith effeithio gyda'r cyrff statudol a'r rhai na sydd yn statudol, cleifion a'r cyhoedd.
- Bod yn gynghorydd proffesiynol o fewn Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a'r Cyngor ar gyfer materion diogelu a sicrwydd ansawdd.
- Arfer gwybodaeth arbenigol ar draws ystod o weithdrefnau ac arferion gwaith rheoli drwy wybodaeth ddamcaniaethol a phrofiad ymarferol.
- Yn gyfrifol am sicrhau fod yna ddull partneriaeth effeithiol o weithio gyda phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, eu teuluoedd a gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys cyd-greu datrysiadau gyda phobl, yn hytrach na'u gwneud.
- Yn gyfrifol am ddatblygu fforymau priodol ar gyfer pobl sydd ag anghenion llesiant, gofal a chymorth er mwyn iddynt fynegi eu barn. Datblygiad gweithredol o berthnasau positif gyda grwpiau yn y gymuned sydd yn chwarae rhan yn y broses o ddarparu gwasanaethau.
- Yn gyfrifol am sicrhau fod yna fodel clir a threfnus ar gyfer llesiant, ymyrraeth gynnar ac ataliaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, gan sicrhau fod yna ddull Gofal Cymdeithasol ac Iechyd sengl a threfniadau gweithio effeithiol gyda phartneriaid allweddol o iechyd ac addysg.
- Arwain y broses o reoli cynigion newid er mwyn sicrhau'r strwythur gorau posib ar gyfer darparu gwasanaethau, gan weithio yn agos ag undebau llafur a gwasanaethau pobl.

- Datblygu partneriaethau gweithredol a pherthnasau adeiladol gyda budd-deiliaid mewnol ac allanol, gan ddylanwadu'r agenda a hyrwyddo newid.
- Cyfrannu i'r broses ehangach o'r rhaglen foderneiddio er mwyn sicrhau llesiant, ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol, yn unol gydag egwyddorion gweithredol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.
- Adnabod, arwain a datblygu cyfleoedd i wella canlyniadau lles a gofal a chymorth i drigolion Sir Fynwy.
- Ailfodelu gwasanaethau er mwyn darparu canlyniadau positif a diwallu anghenion, gan gynnwys ymestyn ac integreiddio'r rolau ar draws gwasanaethau i blant ac oedolion a manteisio ar gyfleoedd i weithio yn integredig gyda phartneriaid iechyd, addysg ac eraill. Datblygu cynlluniau ar gyfer datblygu gwasanaethau a gwelliannau gwasanaeth, datblygu achosion busnes acadrn sydd wedi eu costio, a hynny fel sydd angen

Systemau i Wella Perfformiad, Ansawdd a Chanlyniadau

- Sicrhau fod yna bwrpas clir a gweledigaeth ar gyfer yr ardal gwasanaeth, wedi ei gefnogi gan fodel gweithredol, polisiau a gweithdrefnau, blaenoriaethau ac amcanion mesuradwy sydd wedi eu hamlinellu yn y cynllun busnes gwasanaeth.
- Sicrhau fod yna fframwaith sicrwydd ansawdd a pherfformiad o fewn eich meysydd o gyfrifoldeb sydd yn annog gwelliant ansoddol a meintiol, Mae hyn yn cynnwys monitro ac adolygu canlyniadau, practis adlewyrchol a dysgu ac adolygu a manteisio ar ddata perfformiad er mwyn cefnogi'r broses o gomisiynu a gwella gwasanaethau.
- Adrodd ar archwiliadau meintiol ac ansoddol er mwyn gwerthuso effaith eich maes o gyfrifoldeb ac ymchwil perthnasol i lywio'r cynlluniau gwella gwasanaeth.
- Arddangos canlyniadau i bobl yn cael eu gosod a'u cadw o dan adolygiad parhaus a rhoi gwybod i'r Tîm Rheoli Cyfarwyddiaeth am unrhyw faterion neu bryderon.
- Arwain y broses o ddatblygu systemau rheoli gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth.
- Sicrhau fod yr adroddiadau perfformiad priodol yn cael eu llunio gan Plant, Flo a systemau eraill er mwyn diwallu anghenion Llywodraeth Cymru, trefniadau llywodraethiant eraill, trefniadau craffu a'r Cabinet.
- Sicrhau fod yna adroddiadau perfformiad a chynnydd cyson yn barod i dimau uwch swyddogion Cyngor Sir Fynwy fel sydd angen. Paratoi adroddiadau rheolaidd i Aelodau'r Cabinet drwy strwythurau dethol a chabinet. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor arbenigol proffesiynol yn eich meysydd o wasanaeth.
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r rheoliadau statudol, deddfwriaeth a chanllawiau wrth ddarparu gwasanaethau gan gynnwys ffurfio, gweithredu ac adolygu codau ymarfer a pholisiau lleol yn barhaus.
- Byddwch yn gyfrifol am sicrhau dull sydd yn seiliedig ar dystiolaeth tuag at ddatblygu polisi ac ail-ddylunio gwasanaeth ac yn ystyried canlyniadau'r archwiliad perthnasol a/neu waith gwerthuso ar holl agweddau o'r rôl.
- Bydd y deiliad swydd yn gyfrifol am sicrhau fod arloesed ac arferion da yn cael eu rhannu er mwyn manteisio ar effeithlonrwydd, hyrwyddo cynladwyedd a'n osgoi dyblygiadau.

- Yn gyfrifol am sicrhau lefelau uchel o berfformiad yn unol gyda mesurau a fframweithiau perfformiad cenedlaethol a lleol. Yn gyfrifol am gynlluniau gweithredu cadarn er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd os nad yw'r perfformiad 'gystal ag y mae disgwyl.
- Sicrhau bod systemau llywodraethiant cadarn (clinigol, cyllidol, staff, archwilio a gwybodaeth) a rheoli risg yn eu lle.
- Sicrhau bod systemau yno ar gyfer adolygu, adrodd a dadansoddi digwyddiadau sylweddol gan sicrhau fod staff yn hyderus i roi gwybod am ddamweiniau a damweiniau a fu bron a digwydd. Rheoli'r broses o roi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau drwy sicrhau eu bod yn cael eu hadrodd yn brydlon a bod cynlluniau gweithredu priodol yn cael eu dylunio.
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl reoliadau, deddfwriaeth, cod ymarfer a chanllawiau statudol.
- Hyrwyddo a datblygu'r fframweithiau canlyniadau cenedlaethol o ran gofal cymdeithasol a'r holl strategaethau a thargedau and cenedlaethol.
- Datblygu perthynas waith positif gyda'r Arolygiaeth Gofal Cymdeithasol i Gymru er mwyn sicrhau fod yna hunanasesiadau agored a thryloyw o rinweddau a'r meysydd i wella o ran gwasanaethau anabledd ac iechyd meddwl sydd yn cyfrannu mewn modd amserol i Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sicrhau fod pobl a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o fonitro canlyniadau a sicrhau bod y gwasanaethau yn diwallu'r anghenion sydd wedi eu nodi.

Atebolrwydd Cyllidol

- Yn atebol am sicrhau fod yna strategaeth gyllidol glir ar gyfer y gwasanaeth sydd yn golygu ei fod yn cael ei reoli o fewn y gyllideb. Mae hyn yn golygu bod angen blaenoriaethu, gosod cyllideb a rheoli a chaffael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Cyllidol Sefydlog a sicrhau llywodraethiant corfforaethol effeithiol.
- Yn gyfrifol am sicrhau cydbwysedd cyllidol a / neu fod arian dros ben. Bydd y deiliad swydd yn cefnogi'r rheolwyr tîm sydd yn gyfrifol am y cyllidebau wrth iddynt reoli'r gyllideb. Mae'r deiliad swydd yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau adferiad cyllidol lle y mae eu hangen er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn cael ei reoli o fewn y gyllideb a'r strategaethau arbedion a bod yna gynlluniau yn eu lle er mwy lleihau costau yn unol â'r gostyngiadau cyffredinol yn y gyllideb.
- Yn atebol am sicrhau fod y gwasanaethau y mae'r deiliad swydd yn gyfrifol amdanynt yn gweithio'n unol â'r gwasanaeth a chynllun ariannol sydd yn sicrhau fod y gwasanaeth yn gost effeithiol, yn cael ei ddarparu o fewn y gyllideb ac yn sicrhau adolygiad o rolau, cymysgedd o sgiliau staff a modelau er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posib o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Defnydd o Sgiliau Dadansoddol a Beirniadol

- Cynnig beirniadaeth glir, wybodus a phroffesiynol sydd yn cynnwys ffeithiau a ffigyrau a sefyllfaoedd hynod gymhleth, sydd angen dadansoddiadau, dehongliadau a chymhariaeth o ystod o opsiynau.
- Dehongli data o ffynonellau gwahanol er mwyn llywio'r gwasanaeth, cyflenwi a strategaethau.

- Dadansoddi ac asesu gwybodaeth wrthdrawiadol gan wneud penderfyniadau sydd yn seiliedig ar feirniadaeth a meddwl craff er mwyn darparu canlyniadau priodol.

Adnoddau Gwybodaeth

- Bydd angen i'r deiliad swydd i lunio adroddiadau a chyflwyniadau cymhleth sydd yn seiliedig ar wybodaeth o amryw o ffynonellau. Ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau i ystod eang o grwpiau gan gynnwys yr Uwch Dîm Rheoli, Pwyllgor Dethol Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion, byrddau partneriaeth lleol a rhanbarthol fel sydd angen
- Cyfrannu at system TG effeithiol sydd wedi ei rannu a phrotocolau llywodraethiant ar draws iechedd a gofal cymdeithasol a'r modd y maent yn cael eu gweithredu
- Cyfuno a chrynhoi dogfennau cymhleth, cymharu ffeithiau a dadansoddi data sefyllfafaol o ystod o ffynonellau, datblygu opsiynau ac asesu risgiau a chyfluoedd i'r mudiad a hwyluso adeiladu consensws a gwneud penderfyniadau.

Ymdrech Gorfforol

- Mae yna angen cyson i deithio rhwng safleoedd yr Awdurdod Lleol, addysg, GIG a safleoedd eraill gydag amser cyfyngedig rhwng cyfarfodydd.
- Bydd angen i'r deiliad swydd i gyflwyno dadansoddiadau proffesiynol cymhleth o fewn Llysoedd a bydd yn cael ei groesholi a bydd angen rhoi tystiolaeth am oriau.

Ymdrech Feddyliol

- Bydd angen canolbwyntio'n ddwys ar ystod o faterion cymhleth drwy'r dydd. Bydd angen i'r deiliad swydd i addasu yn aml i flaenoriaethau sydd yn newid ac ail-ffocysu gwaith ei hun ac eraill fel sydd angen yn dilyn gwaith brys.
- Bydd y deiliad swydd yn cymryd rhan ac yn hwyluso cyfarfodydd sydd yn golygu bod angen iddo fedru canolbwyntio ar ystod o destunau a chymysgedd o bobl sy'n mynychu.
- Bydd dadansoddiad proffesiynol y deiliad swydd yn cael ei groesholi o fewn Llys.

Ymdrech Emosiynol

- Fel rhan o'r rôl, bydd angen negodi'n ddyddiol ag uwch gynrychiolwyr ar draws y Cyngor a Phartneriaid, cyfarwyddwyr a rheolwyr mewn economi gyfyngedig o ran iechedd a gofal cymdeithasol ac sydd yn cwmpasu materion sydd wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd a nifer y gwasanaethau, gan herio arferion a phrosesau rheoli sefydlog.
- Bydd disgwyl i'r deilaid swydd i ddelio yn bositif ac yn brydlon gyda phryderon staff a phroblemau personol, herio staff ynghylch ymddygiad amhriodol neu perfformiad truenus ac ymchwilio a delio dgya chwynion a Digwyddiadau Difrifol fel sydd angen.

Amodau Gwaith

- Mae gorfod gweithio mewn amodau gwaith annymunol neu beryglus yn brin.
- Bydd angen delio ag unigolion cymhleth a phobl sy'n cwyno ac sydd yn ddig neu'n anhapus.

IECHYD A DIOGELWCH

Mae pob un gweithiwr yn meddu ar ddyletswydd statudol o ofalu am eu diogelwch proffesiynol eu hunain ac eraill. Bydd gofyn i chi weithredu'n gyfrifol o ran eich iechyd, diogelwch a llesiant eich hun a'ch cydweithwyr a dilyn arferion gwaith diogel a chydymffurfio gyda pholisïau iechyd a diogelwch y Cyngor; mae hyn yn cynnwys gorfod mynychu hyfforddiant iechyd a diogelwch. Sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn eu lle ar gyfer eich ardal gwasanaeth.

Dyma'r hyn yr ydym yn medru ei ddarparu i chi:-

- Bod yn rhan o dîm arwain cefnogol ac uchelgeisiol.
- Awyrgylch lle y mae pawb yn ymddiried ac yn parchu ei gilydd.
- Diwylliant lle'r ydym yn parchu datblygiad personol unigol.

Beth arall sydd angen i chi wybod.....Dyma Werthoedd Cyngor Fynwy:

- Tryloywder: Rydym am geisio bod yn agored ac onest er mwyn datblygu perthynas lle y mae pobl yn medru ymddiried yn ei gilydd.
- Tegwch: Rydym am geisio cynnig dewis teg, cyfleoedd a phrofiad ac i ddod yn fudiad lle y mae'r naill yn parchu'r llall.
- Hyblygrwydd: Rydym am geisio bod yn hyblyg wrth feddwl a gweithredu er mwyn dod yn fudiad effeithiol ac effeithlon.
- Gwaith tîm: Rydym am geisio gweithio gyda'n gilydd er mwyn rhannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd er mwyn cyflawni ein hamcanion.

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

ASESIAD IAITH GYMRAEG:

(c) Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol.

Yn ychwanegol at hyn:

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymddwyn bob tro mewn ffordd sydd yn gyson â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd perthnasol ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn wgeitrhedu polisi Dim Ysgmygu yn y Gweithle a disgwylir i'r holl gyflogeion gydymffurfio gyda hyn..

Manyleb Person

Sut fyddwch yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos y canlynol:-

Rhinweddau Arwain a Gwerthoedd	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
<p>Arweinydd sydd yn cael ei nodweddu gan werthoedd ac ethos cryf o wasanaethu'r cyhoedd</p> <p>Yn ffocysu ar y person ac yn medru arddangos eu hymrwymiad tuag sicrhau fod pobl yn byw eu bywydau eu hunain</p> <p>Yn meddu ar y gallu i arwain, ysgogi hyder mewn cydweithwyr, pobl sydd yn defnyddio, staff a phartneriaid</p> <p>Yn meddu ar y gallu i gyfieithu a chyfathrebu cyfarwyddyd strategol i mewn i ddarpariaeth weithredol</p> <p>Y gallu i weithio mewn modd systematig a hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus</p> <p>Yn ddeallusol emosiynol ac yn medru dangos empathi er mwyn sicrhau'r canlyniadau positif yn y sefyllfaoedd mwyaf cymhleth</p> <p>Yn medru ysgogi eich hun a'n ddeinamig</p> <p>Yn benderfynol a'n medru taro cydbwysedd a lleihau risg</p> <p>Y gallu i weithio o dan bwysau, rheoli amser, gweithio o fewn terfynau amser tra'n gwneud yr hyn sydd yn bwysig</p> <p>Arloesol a chreadigol</p> <p>Y gallu i fod yn wylaidd ond yn benderfynol wrth fynd i'r afael â'r materion sydd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>Yn meddu ar agwedd bositif</p> <p>Dull dadansoddol tuag at ddefnyddio tystiolaeth er mwyn hyrwyddo newid</p> <p>Yn gallu gweithio mewn partneriaeth a rheoli perthnasau cymhleth o fewn mudiadau ar lefelau uwch</p> <p>Lefel uchel o gadernid</p> <p>Synnwyr digrifwch</p>	<p>Pob dim yn hanfodol</p>	<p>Bydd yr holl bethau yn cael eu profi ym mhob cam o'r broses asesu</p>

Addysg a Hyfforddiant Penodol	Hanfodol / Dymunol	Dull Aseu
<p>Cymhwyster gwaith cymdeithasol proffesiynol a phrofiad ar ôl cymhwyso mewn maes perthnasol</p> <p>Cymhwyster rheoli proffesiynol</p> <p>Cymhwyster rheoli gradd Meistr</p> <p>Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol a phersonol parhaus</p> <p>Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol yn y meysydd canlynol: arwain gwelliannau practis, cyfathrebu cydweithredol, rheoli newid yn llwyddiannus, arweinyddiaeth sector cyhoeddus, datblygiad trefniadol, cynllunio a datblygu gweithlu, arwain gwasanaethau a gofal cymdeithasol i blant ac oedolion; dulliau gwelliannau parhaus</p>	<p>Hanfodol</p> <p>Dymunol</p> <p>Dymunol</p> <p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p>	<p>Bydd yr holl bethau yn cael eu profi ym mhob cam o'r broses aseu</p>
Profiad	Hanfodol / Dymunol	Dull Aseu
<p>Tystiolaeth o reoli, arwain a gwerthuso gwasanaethau a thimau gofal cymdeithasol i blant ac oedolion</p> <p>Profiad o reoli ac arwain gwaith amlddisgyblaethol a phartneriaethau yn llwyddiannus</p> <p>Profiad o reoli ac arwain timau amlddisgyblaethol, yn llwyddiannus gan ddwyn ynghyd staff o wasanaethau oedolion a phlant</p> <p>Profiad o weithio a chydlynu gwaith darparwyr gwasanaeth asiantaethau gwahanol er mwyn gwella canlyniadau gwasanaeth</p> <p>Profiad o arwain newid a phrosiectau gyda chanlyniadau llwyddiannus</p> <p>Profiad o reoli cyllidebau o faint ac sy'n gymhleth a'n medru dangos tystiolaeth o gyflawni arbedion cyllidol sylweddol</p> <p>Profiad o ymgysylltu gyda phobl a gofalwyr wrth ddarparu a chynllunio gwasanaethau</p> <p>Profiad o weithio o fewn a rheoli fframweithiau perfformiad</p> <p>Profiad o ddarparu rhaglenni datblygu sefydliadol a newid diwylliant</p> <p>Profiad o ddelio gydag achosion hynod gymhleth ac sy'n destun dadl</p> <p>Profiad o gynnig dadansoddiad proffesiynol mewn Llys</p> <p>Profiad o brosesau cyfreithiol sydd yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion a rheoli prosesau cyfreithiol</p>	<p>Pob dim yn hanfodol</p>	<p>Bydd yr holl bethau yn cael eu profi ym mhob cam o'r broses aseu</p>



Profiad o ddylunio a gweithredu systemau o welliant parhaus mewn sicrwydd		
Gwybodaeth	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
<p>Gwybodaeth arbenigol a chyfredol o ddeddfwriaeth, canllawiau a pholisïau sydd yn effeithio ar wasanaethau iechyd a gofal cydmeithasol yng Nghymru</p> <p>Gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymrwymiad at sicrhau fod 'arlderchowgrudd' yn rhan o brofiadau pobl</p> <p>Dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth diogelu i blant ac oedolion ynghyd ag iechyd a diogelwch</p> <p>Gwybodaeth arbenigol o Gyfraith Deuluol a'r Public Law Outline</p> <p>Gwybodaeth arbenigol o reoliadau Cymreig ar gyfer gwasanaethau maethu a mabwysiadu</p> <p>Dealltwriaeth o systemau rheoli perfformiad, mesurau ansawdd a threfniadau llywodraethiant proffesiynol</p> <p>Dealltwriaeth, profiad a sgiliau sydd yn ymwneud â llywodraethiant proffesiynol a phrosesau sicrwydd ansawdd o ran gofal cymdeithasol</p> <p>Dealltwriaeth o systemau proffesiynol a llywodraethiant corfforaethol, prosesau perfformiad a rheoli.</p> <p>Dealltwriaeth fanwl o amgylcheddau gofal cydmeithasol, gofal cymunedol a gofal cynradd</p> <p>Dealltwriaeth fanwl o lywodraethiant gwybodaeth.</p> <p>Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r holl agweddau o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Deddf Plant, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu, Deddf Iechyd Meddwl, Deddf Galluedd Meddyliol, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).</p> <p>Dealltwriaeth dda o egwyddorion cyfartal a hyrwyddo arferion gwrth-wahaniaethu</p> <p>Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r anghenion cofrestru a'r prosesau o fewn AGGCC a Gofal Cydmeithasol Cymru.</p> <p>Dealltwriaeth fanwl o'r cymhlethdodau sydd yn nodweddu'r broses o reoli gwasanaeth gofal cymdeithasol i blant ac oedolion</p>	Pob dim yn hanfodol	Bydd yr holl bethau yn cael eu profi ym mhob cam o'r broses asesu
Arall	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
Yn medru gweithio'n annibynnol a theithio o le i le mewn ardal ddaearyddol	Hanfodol	Ffurflen Gais

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: Jane Rodgers ar 01633 644054
Janerodgers@monmouthshire.gov.uk

Dyddiad Cau: Hanner Dydd ar ddydd Gwener, 13^{eg} Ionawr 2017